Cyngor Dinas Casnewydd - canllawiau ar gasgliadau gwastraff ac ailgylchu domestig

Mehefin 2023

1. Cyflwyniad

I. Mae'r ddogfen hon yn nodi manylion y casgliadau gwastraff cartref ac ailgylchu a ddarperir gan Gyngor Dinas Casnewydd (CDC). Noder y gallai trefniadau eraill fod ar waith i'r rhai sy'n byw mewn fflat neu dŷ amlfeddiannaeth. Er mwyn cael rhagor o wybodaeth am hyn cysylltwch â'r tîm gwastraff drwy e-bostio info@newport.gov.uk.

II. Mae'n ddyletswydd statudol ar y cyngor i drefnu casglu a chael gwared ar wastraff domestig yn unol â Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990.

III. Mae'r cyngor yn gweithredu polisi o wastraff gweddilliol cyfyngedig fel y cymeradwywyd gan aelodau cabinet ym mis Rhagfyr 2018, a bydd yn dod i rym ym mis Ebrill 2019.

2. Casglu gwastraff na ellir ei ailgylchu

I. Rhoddir bin olwynion 120 litr i bob aelwyd at ddibenion storio a chasglu gwastraff na ellir ei ailgylchu. Ar hyn o bryd mae Cyngor Dinas Casnewydd yn newid amlder casgliadau gwastraff na ellir ei ailgylchu o bob pythefnos i fesul tair wythnos, gyda newidiadau'n cael eu cyflwyno yn 2023..

II. Rhaid cyflwyno'r gwastraff i'w gael ei gasglu yn y bin olwynion a ddarparwyd erbyn 6am ar y diwrnod casglu penodedig. Gallai gael ei gasglu ar unrhyw adeg ar ôl 6am ar y diwrnod penodedig. Ni chaniateir i'r deunyddiau canlynol gael eu rhoi mewn biniau/sachau gweddilliol:

- Papur
- Cardfwrdd
- Poteli plastig a hambyrddau plastig
- Poteli a jariau gwydr
- Caniau, tuniau ac erosolau
- Cartonau bwyd a diod
- Gwastraff bwyd
- Gwastraff gardd
- Eitemau trydanol
- Dillad

III. Ar gyfer aelwydydd sydd â gwastraff na ellir ei ailgylchu yn cael ei gasglu bob tair wythnos, gall 5 neu fwy o breswylwyr parhaol wneud cais am finiau mwy eu maint. Bydd CDC yn gwirio pob cais a rhoddir bin mwy i'r aelwydydd sy'n bodloni'r meini prawf hyn;

- 180 litr – 5, 6 neu 7 preswylydd
- 240 litr – 8 preswylydd neu fwy

Ar gyfer aelwydydd sydd yn parhau â chasgliadau gwastraff na ellir ei ailgylchu fesul pythefnos, gall 6 neu fwy o breswylwyr parhaol wneud cais am finiau mw eu maint. Bydd CDC yn gwirio pob cais a rhoddir bin mwy i'r aelwydydd sy'n bodloni'r meini prawf hyn;

- 180 litr – 6 neu 7 preswylydd
- 240 litr – 8 preswylydd neu fwy

Gweler adran 11 am wybodaeth am y broses o wneud cais am fin mwy o faint.

IV. Rhoddir sachau i'r nifer bach o eiddo heb le ganddynt i gadw biniau olwynion. Gellir gosod dim mwy na 2 sach allan bob diwrnod casglu.

3. Casgliadau Ailgylchu

I. Rhoddir bocs ailgylchu 55 litr a 2 sach amldro 90 litr i bob aelwyd er mwyn storio a chasglu deunyddiau ailgylchadwy fel a ganlyn. Caiff deunyddiau ailgylchadwy eu casglu yn wythnosol.

Sachau Glas

- Cardfwrdd (nifer arferol o gardfwrdd domestig sy'n gorfod ffitio yn y bocs. Gweler adran 7 am fwy o gardfwrdd nag sy'n arferol)
- Papur

Bocs Gwyrdd

- Poteli gwydr
- Jariau gwydr
- Eitemau trydanol bach (rhaid iddynt allu ffitio yn y bocs)

Sachau Coch

- Poteli plastig
- Hambyrddau plastig (heb ffilm)
- Caniau
- Tuniau

- Ffoil (dim pecynnau creision)
- Erosolau
- Cartonau bwyd a diod (fel Tetra Pak neu diwbiau creision),

Dillad ac esgidiau – i'w rhoi mewn bag plastig wedi'i glymu a'i osod wrth ymyl y cynwysyddion ailgylchu eraill

II. Rhaid cyflwyno'r nwyddau ailgylchadwy i'w cael eu casglu yn y cynhwysydd priodol erbyn 7am ar y diwrnod casglu penodedig. Gallai gael ei gasglu ar unrhyw adeg ar ôl 7am ar y diwrnod penodedig.

III. Ni chesglir ailgylchu sydd wedi'u halogi; ceir rhagor o fanylion ynglŷn â'r hyn y gellir ac na ellir ei gasglu ar wefan y Cyngor https://www.newport.gov.uk/cy/Waste-Recycling/What-We-Collect/What-We-Collect.aspx

IV. Gall preswylwyr wneud cais am gynwysyddion ailgylchu newydd neu ychwanegol ar lein yn http://www.newport.gov.uk/cy/Waste-Recycling/Order-new-bags-and-bins.aspx

4. Casgliadau Gwastraff Bwyd

I. Rhoddir cadi cegin 5 litr a sachau y gellir eu compostio i bob aelwyd at ddibenion storio gwastraff bwyd, a chadi 23 litr i gasglu'r gwastraff bwyd. Caiff gwastraff bwyd ei gasglu bob wythnos.

II. Gellir rhoi'r eitemau canlynol yn y cadi bwyd:

- Pob math o wastraff bwyd wedi'i goginio neu amrwd
- Pilion, esgyrn, plisg wyau
- Bagiau te a gwaddodion coffi
- Blodau

III. Rhaid cyflwyno'r cadis gwastraff bwyd i'w gael eu casglu erbyn 7am ar y diwrnod casglu. Gallai gael ei gasglu ar unrhyw adeg ar ôl 7am ar y diwrnod penodedig.

IV. Gall preswylwyr wneud cais am gadis newydd neu ychwanegol ar-lein - http://www.newport.gov.uk/cy/Waste-Recycling/Order-new-bags-and-bins.aspx

5. Casgliadau gwastraff gardd

I. Rhoddir bin olwynion 240 litr i bob aelwyd at ddibenion storio a chasglu gwastraff gardd. Ar hyn o bryd mae Cyngor Dinas Casnewydd yn newid amlder casgliadau gwastraff gardd o bythefnos i dair wythnos, gyda newidiadau'n cael eu cyflwyno yn 2023.

II. Mae’r casgliadau yn cael eu hoedi am 3 mis dros y gaeaf. Mae'r union amseroedd yn amrywio bob blwyddyn, edrychwch ar wefan y Cyngor am fwy o wybodaeth https://www.newport.gov.uk/cy/Waste-Recycling/What-We-Collect/Garden-Waste.aspx

III. Gellir rhoi’r eitemau canlynol yn y bin gwastraff gardd:

- Toriadau gwair a dail
- Toriadau clawdd, canghennau bach a brigau
- Planhigion, blodau wedi’u torri a chompost potiau

IV. Ni fydd biniau gwastraff gardd yn cael eu gwagio os ydynt:

- Yn cynnwys eitemau nad ydynt yn cael eu caniatáu (megis bagiau plastig, pridd, cerrig neu rwbel; gwastraff bwyd, chwyn niweidiol megis Llysiau'r Dial; gwastraff anifeiliaid; neu unrhyw eitem y cartref nad yw’n wastraff gardd)
- yn rhy drwm i’w gwagio

Mewn amgylchiadau o’r fath, ni fydd biniau gwastraff gardd yn cael eu casglu a bydd biniau yn cael eu ‘tagio’ i roi gwybod i’r aelwyd fod y bin wedi ei halogi.

Bydd preswylwyr yn gyfrifol am gael gwared ar y gwastraff na chafodd ei gasglu yn gywir.

V. Rhaid cyflwyno’r bin gwastraff gardd i’w gasglu erbyn 6am ar y diwrnod casglu. Gallai gael ei gasglu ar unrhyw adeg ar ôl 6am ar y diwrnod penodedig.

VI. Gellir gofyn am finiau gwastraff gardd ychwanegol ar-lein, yn amodol ar gymeradwyaeth. http://www.newport.gov.uk/cy/Waste-Recycling/Order-new-bags-and-bins.aspx

6. Gwastraff Hylendid

I. Gall teuluoedd â phlant dan 3 oed sy’n byw yn yr un tŷ, a phreswylwyr â chyflyrau iechyd sy’n cynhyrchu gwastraff:

a. Padiau anymataliaeth neu wastraff tebyg

b. Bagiau colostomi, bagiau stoma nad ydynt yn heintus, a chathetrau

ofyn am gasgliad ychwanegol ar gyfer gwastraff hylendid.

II. Bydd CDC yn gwirio pob cais a rhoddir sachau porffor i’r aelwydydd sy’n bodloni’r meini prawf hyn.

III. Gellir rhoi’r eitemau canlynol yn y sachau melyn:

- Cewynnau
- Sbwriel sy’n gysylltiedig â newid cewyn, megis peli cotwm, llieiniau gwlyb, sachau cewynnau

- Padiau anymataliaeth
- Bagiau colostomi, bagiau stoma nad ydynt yn heintus, a cathetrau

Ni chesglir eitemau gwastraff domestig eraill, gan gynnwys gwastraff clinigol, yn rhan o'r gwasanaeth hwn.

IV. Am wastraff clinigol, cynghorir preswylwyr i gysylltu â llinell gymorth casglu'r GIG ar 01495 745656 i drefnu casgliadau ar wahân.

V. Rhaid cyflwyno sachau porffor i'w casglu erbyn 6am ar yr un diwrnod â'r casgliadau gwastraff gweddilliol.

VI. Os nad yw'r gwasanaeth casglu gwastraff hylendid yn cael ei ddefnyddio gan aelwyd am 3 casgliad yn olynol neu 6 wythnos, bydd CDC yn rhoi'r gorau i ddarparu'r gwasanaeth. Os digwydd hyn, bydd rhaid i breswylwyr ailymgeisio am y gwasanaeth (gweler adran 11).

VII. Atgoffir preswylwyr bod defnyddio cewynnau y gellir eu hailddefnyddio yn ddewis cost-effeithiol ac ecogyfeillgar ac anogir iddynt eu defnyddio. Ceir rhagor o wybodaeth yn http://wastesavers.co.uk/newport-nappy-library neu https://www.recycleforwales.org.uk/reduce/real-nappy-campaign.

VIII. Gall preswylwyr wneud cais am gasgliadau cewynnau a hylendid ar-lein: https://www.newport.gov.uk/cy/Waste-Recycling/What-We-Collect/Nappy-collection.aspx

7. Casgliadau Arbennig / Eitemau Gwastraff Swmpus

I. Gall aelwydydd drefnu casgliad o eitemau domestig mawr, megis dodrefn diangen, eitemau trydanol mawr, bocsys cardbord mawr ac ati, nad ydynt yn cael eu casglu fel arfer wrth ymyl y ffordd, a hynny am ddim.

II. Mae modd archebu casgliadau arbennig ar-lein yma https://www.newport.gov.uk/cy/Waste-Recycling/Bulky-Item-Collection.aspx]

III. Argymhellir bod eitemau sydd mewn cyflwr da ac y gellir eu hailddefnyddio yn cael eu rhoi i elusen. Gellir dod o hyd i ddulliau eraill a manylion cyswllt ar https://www.newport.gov.uk/cy/Waste-Recycling/Bulky-Item-Collection.aspx]

8. Casgliadau â Chymorth

I. Gallai preswylwyr na all symud eu biniau na'u cynwysyddion yn sgil eu hiechyd neu gyflyrau eraill fod yn gymwys i gael cymorth â'u casgliadau, sy'n golygu y gallai eu biniau gael eu casglu heb orfod eu gosod wrth ymyl y ffordd.

II. Gellir gwneud ceisiadau am y gwasanaeth hwn ar-lein https://www.newport.gov.uk/cy/Waste-Recycling/What-We-Collect/Assisted-Collections.aspx

9. Casgliadau a Fethwyd

I. Dim ond biniau sy'n cael eu gosod yn y lleoliad priodol wrth ymyl y ffordd cyn 6am ar y diwrnod casglu fydd yn cael eu casglu; yr unig eithriad i hyn yw aelwydydd sydd â threfniadau a gymeradwywyd ymlaen llawn am gasgliadau â chymorth.

II. Os bydd unrhyw un o'r gwahanol finiau neu gynwysyddion yn cael eu gosod allan cyn 6am ar y diwrnod casglu yn y lleoliad priodol, ond bod y gwastraff heb ei gasglu, gall preswylwyr roi gwybod amdano ar-lein yn http://www.newport.gov.uk/cy/Waste-Recycling/Missed-Collections.aspx cyn gynted â phosibl. Bydd casgliadau'n digwydd tan 3pm bob dydd felly bydd adroddiadau am gasgliadau a fethwyd yn cael eu hystyried ar ôl yr amser hwnnw'n unig.

III. Ni ymchwilir i adroddiadau am gasgliadau a fethwyd a wnaed yn fwy na 24 awr ar ôl 3pm ar y diwrnod casglu ac ni fydd y casgliadau'n digwydd tan y diwrnod casglu penodedig nesaf.

IV. Defnyddir cofnodion casglu biniau a recordiad teledu cylch cyfyng o'r cerbydau casglu i ymchwilio i'r adroddiadau o gasgliadau a fethwyd. Os nad oedd y bin neu'r cynhwysydd wedi'i roi yn y lle priodol cyn 6am ar y diwrnod casglu, ni fydd unrhyw gamau gweithredu pellach yn cael eu cymryd ac ni fydd y bin yn cael ei gasglu. Os yw'n briodol, yna bydd y bin a fethwyd yn cael ei gasglu o fewn dau ddiwrnod gwaith ar ôl adrodd amdano.

10.Gorfodi capasiti gwastraff gweddilliol yr aelwyd

Bydd gorfodi'r polisi hwn yn cael ei weinyddu fel a ganlyn:

I. Ar gyfer gwastraff sy'n fwy na'r capasiti a ddyrennir:

A. Bydd y canlynol yn cael eu hystyried yn wastraff gormodol:

- Unrhyw sachau sy'n cael eu rhoi ar ben neu ger y biniau (neu sy'n fwy na nifer y sachau a ganiateir, o ran casglu sachau)
- Gwastraff sy'n fwy na'r hyn sy'n ffitio y tu fewn i'r biniau gyda'r caeadau ynghau

B. **A**m fethu cydymffurfio â'r polisi y tro cyntaf, bydd y gwastraff yn cael ei gasglu, ond bydd y bin yn cael ei 'dagio', gan rybuddio'r preswylydd ei fod yn groes i'r polisi a rhoi gwybod iddo am y camau nesaf.

Am fethu cydymffurfio â'r polisi yr ail dro, yna ceir hysbysiad **Ni fydd gwastraff gormodol yn cael ei gasglu**, a'r bin yn cael ei 'dagio' a/neu y sachau ychwanegol yn 'derbyn sticer'. Gallai hyn arwain at ymweliad gan y tîm addysg a gorfodi hefyd i roi canllawiau a chyngor unigol i breswylwyr, a allai gynnwys cynnal archwiliadau biniau hefyd er mwyn deall pwy sy'n berchen ar y bin a rhoi

cymorth i breswylwyr o ran pa ddeunyddiau y gellir eu rhoi mewn cynwysyddion ailgylchu. Bydd preswylwyr yn gyfrifol am gael gwared ar y gwastraff na chafodd ei gasglu yn gywir.

C. Bydd hyn hefyd yn arwain at gyhoeddi Hysbysiad Adran 46 o dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd (EPA) 1990. Bydd yr Hysbysiad yn pennu'r math o gynwysyddion y bydd angen i breswylwyr eu defnyddio i roi eu gwastraff ynddynt a chyfarwyddiadau ar sut i wahanu neu ddidoli'r gwahanol fathau o wastraff. Bydd Hysbysiadau Adran 46 yn ddilys am 12 mis, a bydd modd gorfodi achosion o fynd yn groes i'r amodau a roddir arnynt wrth weithredu Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990.

D. Bydd mynd yn groes i'r amodau a roddir gan Hysbysiadau Adran 46 yn golygu na fydd gwastraff gormodol yn cael ei gasglu a dilynir hynny gan Hysbysiadau Cosb Benodedig o £100. Rhoddir hysbysiadau cosb benodedig pellach os nad yw'r ymddygiad yn newid.

II. Am beidio â chydymffurfio â chasgliadau ailgylchu

A. Os ceir hyd i nifer sylweddol o ddeunyddiau ailgylchadwy mewn biniau gweddilliol, os bydd cynwysyddion ailgylchu wedi eu halogi'n drwm, neu os bydd preswylwyr yn gwrthod rhoi gwastraff ailgylchu neu wastraff bwyd allan ar gyfer casgliadau ar wahân, bydd y tîm addysg a gorfodi yn cysylltu i roi canllawiau a chyngor unigol i breswylwyr, a allai gynnwys cynnal archwiliadau ar finiau hefyd i roi cymorth i breswylwyr o ran pa ddeunyddiau y gellir eu rhoi mewn cynwysyddion deunyddiau ailgylchadwy.

B. Os na fydd y sefyllfa'n gwella, bydd y tîm gorfodi'n rhoi Hysbysiad Adran 46 a fydd yn pennu'r math o gynwysyddion y bydd angen i'r preswylydd eu defnyddio i roi eu gwastraff ynddynt a chyfarwyddiadau ar sut i ddidoli'r gwahanol fathau o wastraff. Bydd Hysbysiadau Adran 46 yn ddilys am 12 mis, a bydd modd gorfodi achosion o fynd yn groes i'r amodau a roddir arnynt wrth weithredu Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990.

C. Bydd achosion o fynd yn groes i'r amodau a roddir arnynt gan Hysbysiadau Adran 46 yn cael eu dilyn gan Hysbysiadau Cosb Benodedig o £100. Rhoddir hysbysiadau cosb pellach os nad yw'r ymddygiad yn newid.

III. Am beidio â chydymffurfio â chasgliadau ailgylchu

A. Ni fydd biniau gwastraff gardd yn cael eu gwagio os ydynt:

- Yn cynnwys eitemau nad ydynt yn cael eu caniatáu (megis bagiau plastig, pridd, cerrig neu rwbel; gwastraff bwyd, chwyn niweidiol megis Llysiau'r Dial; gwastraff anifeiliaid; neu unrhyw eitem y cartref nad yw'n wastraff gardd)
- Yn rhy drwm i'w gwagio

B. Mewn amgylchiadau o'r fath, ni fydd biniau gwastraff gardd yn cael eu casglu a bydd biniau'n cael eu 'tagio' i roi gwybod i'r aelwyd. Gallai hyn arwain at

ymweliad gan y tîm addysg a gorfodi hefyd i roi canllawiau a chyngor unigol i breswylwyr, a allai gynnwys cynnal archwiliadau biniau hefyd er mwyn deall pwy sy'n berchen ar y bin a rhoi cymorth i breswylwyr o ran pa ddeunyddiau y gellir eu rhoi mewn cynwysyddion ailgylchu. Bydd preswylwyr yn gyfrifol am gael gwared ar y gwastraff na chafodd ei gasglu yn gywir.

C. Bydd hyn hefyd yn arwain at roi hysbysiad adran 46 o dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd (EPA) 1990. Bydd yr Hysbysiad yn pennu'r math o gynwysyddion y bydd angen i breswylwyr eu defnyddio i roi eu gwastraff ynddynt a chyfarwyddiadau ar sut i ddidoli'r gwahanol fathau o wastraff. Bydd Hysbysiadau Adran 46 yn ddilys am 12 mis, a bydd modd gorfodi achosion o fynd yn groes i'r amodau a roddir arnynt wrth weithredu Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990.

D. Bydd achosion o fynd yn groes i'r amodau a roddir arnynt gan Hysbysiadau Adran 46 yn cael eu dilyn gan Hysbysiadau Cosb Benodedig o £100. Rhoddir hysbysiadau cosb pellach os nad yw'r ymddygiad yn newid.

11. Capasiti ychwanegol

I. Mae capasiti ychwanegol ar gael ar gyfer aelwydydd â 5 neu fwy o breswylwyr parhaol (os ar gasgliadau fesul tair wythnosol) neu 6 neu fwy o breswylwyr parhaol (os ydynt yn dal i fod ar gasgliadau bob pythefnos) fel y nodir yn adran 1 a hefyd ar gyfer casglu gwastraff hylendid. Mae'r adran hon yn nodi'r broses o wneud cais.

II. Er mwyn cael eu hystyried am gapasiti ychwanegol, rhaid i ddeiliaid y cartref wneud cais i Gyngor Dinas Casnewydd ar-lein: https://www.newport.gov.uk/cy/Waste-Recycling/What-We-Collect/Nappy-collection.aspx a http://www.newport.gov.uk/cy/Waste-Recycling/Order-new-bags-and-bins.aspx

Gofynnir i breswylwyr ddarparu tystiolaeth ategol er mwyn bodloni'r meini prawf ar gyfer derbyn eu cais. Bydd cofnodion y Cyngor yn cael eu gwirio i gadarnhau nifer y preswylwyr yn yr eiddo a chydymffurfiaeth â'r meini prawf.

III. Gallai aelod o'r tîm addysg a gorfodi ymweld â phreswylwyr sy'n gwneud cais am gapasiti ychwanegol er mwyn sicrhau bod yr holl wastraff yn cael ei wahanu i'w ailgylchu'n briodol.

IV. Nid yw gwneud cais am gapasiti ychwanegol yn caniatáu i breswylwyr gyflwyno gwastraff ychwanegol yn syth. Rhaid i breswylwyr aros i dderbyn cadarnhad o unrhyw benderfyniad ac, os caiff ei dderbyn, rhoddir gwybod iddynt am y dyddiad cychwyn.

V. Bydd pob cais yn cael ei asesu'n unigol gan yr Adran Wastraff yn ôl y meini prawf cyn gwneud unrhyw benderfyniad. Bydd penderfyniadau i gymeradwyo neu wrthod y ceisiadau'n cael eu cyflwyno gan y cyngor yn ysgrifenedig.

VI. Cynhelir adolygiadau rheolaidd i sicrhau bod y rhai hynny sy'n cael bin mwy o faint ei angen o hyd ac yn bodloni'r meini prawf o hyd. Rhoddir y capasiti ychwanegol am gyfnod penodol a bennir gan y Cyngor a bydd angen ailymgeisio os, ar ddiwedd y cyfnod hwnnw, mae'r amodau sy'n gwneud y preswylydd yn gymwys yn dal yr un fath.

VII. Bydd angen i'r preswylydd roi gwybod i Gyngor Dinas Casnewydd am unrhyw newidiadau mewn amgylchiadau a fydd yn golygu nad ydynt yn bodloni gofynion y Polisi hwn mwyach ac nad oes hawl ganddynt fwyach i gael bin mwy o faint.

VIII. Gellir tynnu'r hawl am gapasiti ychwanegol ar benderfyniad y Cyngor.

IX. Bydd y preswylwyr â'r hawl am gapasiti ychwanegol yn destun polisi Cyngor Dinas Casnewydd pe baent yn cyflwyno mwy o wastraff na'r hyn y cytunwyd arno ac a gymeradwywyd, neu os byddant yn mynd yn groes i unrhyw amod arall a nodir yn y ddogfen hon. Mae gan y Cyngor bwer i gyflwyno rhybuddion ysgrifenedig a Hysbysiadau Cosb Benodedig dan Adran 46 Deddf Diogelu'r Amgylchedd i unrhyw breswylydd nad yw'n bodloni'r gofynion.

12. Apeliadau

I. Capasiti Ychwanegol/Cymorth Codi

A. Bydd pob cais am gapasiti ychwanegol neu gymorth codi'n cael ei asesu'n unigol gan yr Adran Wastraff yn ôl y meini prawf cyn gwneud unrhyw benderfyniad. Bydd penderfyniadau i gymeradwyo neu wrthod y ceisiadau'n cael eu cyflwyno'n ysgrifenedig. Os bydd cais yn cael ei wrthod, bydd preswylwyr yn cael llythyr yn nodi'r penderfyniad ac yn egluro'r rhesymau dros ei wrthod, gan roi gwybodaeth am yr hawl i apelio.

B. Er mwyn gwneud apêl, rhaid i breswylwyr ysgrifennu llythyr yn amlinellu'r rhesymau pam nad ydynt yn cytuno â'r penderfyniad o fewn 30 diwrnod ar ôl cael y llythyr sy'n nodi'r penderfyniad. Bydd y cais yn cael ei asesu gan Dîm Cwynion y Cyngor a bydd preswylwyr yn cael ymateb yn ysgrifenedig, sy'n derfynol ac yn rhwymol ar bob parti.

C. Mae newid mewn amgylchiadau sy'n golygu bod preswylwyr a gafodd eu cais eu gwrthod bellach yn bodloni'r meini prawf, yn gallu ailymgeisio am gapasiti ychwanegol.

II. Gorfodi

A. Bydd y broses o apelio yn cael ei nodi mewn unrhyw hysbysiad statudol a roddir i'r preswylydd.

B. Rhaid clywed pob apêl Adran 46 mewn Llys yr Ynadon. Bydd unrhyw gostau sy'n digwydd yn sgil yr apêl yn cael eu codi ar y preswylydd.

C. Nid oes prosesau apêl ar waith ar gyfer troseddau Adran 33.

13.Dolenni i Bolisïau a Blaenoriaethau'r Cyngor

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) yn nodi mewn deddfwriaeth sut y mae rhaid i'r Cyngor weithio tuag at wella llesiant amgylcheddol Cymru. Mae'r Ddeddf hon yn datgan y dylai'r Cyngor ystyried mesurau hirdymor ac ataliol wrth wneud penderfyniadau. Mae ailgylchu a gwastraff

yn cael sylw o fewn amcan llesiant 2 y Cyngor- amgylchedd a seilwaith Casnewydd, cam 3 – Parhau â'n cynnydd fel arweinydd yn y byd ar ailgylchu gan gyfrannu tuag at nod gwastraff sero net Cymru.

14. Cydraddoldeb a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Cynhaliwyd asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a Thegwch ar y cynigion sydd wedi'u cynnwys yn y Strategaeth Gwastraff newydd er mwyn cyflawni'r gofynion sy'n gysylltiedig â Deddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

Wrth gyfyngu ar wastraff gweddilliol, mae'r asesiad yn dangos na fydd y newidiadau arfaethedig yn effeithio ar y rhan fwyaf o'r grwpiau a ddiogelir a bydd unrhyw effeithiau negyddol posibl yn cael eu gwrthbwyso gan y Cyngor wrth iddo barhau â'i bolisi o ganiatáu capasiti ychwanegol i breswylwyr sy'n bodloni gofynion penodol.

Mewn perthynas â'r Amcanion Llesiant, nod y weithgaredd hon yn rhan o'r strategaeth gwastraff yw dod o hyd i ddatrysiadau sy'n gweithio i Gasnewydd a sicrhau bod cynlluniau ar waith ar gyfer dull ataliol a rhagweithiol sy'n mynd i'r afael â'r achosion sylfaenol. Mae ailgylchu yn ymwneud ag ymddygiad yn bennaf felly nodwyd yr angen am gyfathrebu ac ymgysylltu'n gywir â phreswylwyr. Bwriad y polisi hwn yw nodi'n glir sut bydd gwasanaeth casglu gwastraff gweddilliol domestig yn cael ei ddarparu a'r hyn a ddisgwylir gan y preswylwyr, sydd, ynghyd â'r wybodaeth ychwanegol a roddwyd drwy ymgyrch gyfathrebu ehangach, a gweithgarwch y tîm newydd o swyddogion ymgysylltu a gorfodi, yn bwriadu nodi a mynd i'r afael â phroblemau o ran ymddygiad cyfranogi a pherfformiad.